HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**

NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

POLISI GWERTH CYMDEITHASOL 2017

TABL CYNNWYS

POLISI GWERTH CYMDEITHASOL 2017

Gogledd Cymru a'r Polisi 2

Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 3

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 4

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 5

Y Trydydd Sector / Sector Gwirfoddol a Chymunedol 6

Costau a Manteision 7

Blaenoriaethu 8

Themâu Cymdeithasol a Chanlyniadau CHThGC a HGC 8

Datganiad a Chwestiwn 9

Cyflwyno Gwerth Cymdeithasol - Beth ydych angen ei wybod 10

Casgliad 12

Dolenni defnyddiol 13

Atodiad 1 - Y Broses Gwerth Cymdeithasol Comisiynu a Chaffael 14

Atodiad 2 - PACT - Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned.....15

GOGLEDD CYMRU A'R POLISI

Mae gan Ogledd Cymru un o'r tirweddau mwyaf grymus ym Mhrydain gyfan. Mae'n cynnwys traethau, afonydd, mynyddoedd, llynnoedd, rhaeadrau a phobl sy'n angerddol am eu diwylliant, cerddoriaeth a hanes. Tra mae'r Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, CHThGC a HGC, GIG Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gan Ogledd Cymru 687,800 o bobl gydag incwm cartref gwario gros y pen o £15,622 (85% o gyfartaledd Cymru). Mae'n cynnwys cyfran uchel o drigolion oedrannus. Gall hyn fod oherwydd pobl yn symud i'r ardal i ymddeol. Ceir hefyd rif net o gymudwyr yn gweithio tu hwnt i'r rhanbarth yn ardaloedd Caer, Glannau Mersi a Manceinion.

Ar hyn o bryd mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 73.2% o'i gymharu â 74.5% ar gyfer y DU. Erys y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru (hynny yw pobl sydd ddim yn gweithio ond ar gael i waith) ar 4.1% o'i gymharu â 4.9% yn y DU.

Busnesau bach maint micro (busnes sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl) yw asgwrn cefn economi Gogledd Cymru. Yn 2015 roedd 58,100 o fentrau ar waith ledled Gogledd Cymru. Roedd 94% yn fusnesau maint micro gyda gweithwyr o'r rhain yn cyfrif am 35% o gyflogaeth y sector preifat o fewn Gogledd Cymru.

Cynorthwyir datblygu Gwerth Cymdeithasol yn y rhanbarth ymhellach gan **Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** sydd, fel Gwerth Cymdeithasol, ynghylch gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rho'r Ddeddf saith nod lles i Gymru. Anelant at greu Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, gwydn, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus.

Cliciwch ar y ddolen am wybodaeth am **CHThGC** a **HGC.**

Y Weledigaeth – Anela CHThGC a HGC arwain Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i groesawu Gwerth Cymdeithasol a chreu economi leol well a chadarnach. Roedd hyn yn creu twf economaidd, swyddi a chyfleoedd i bobl leol.

Y Polisi – Gosod y polisi Gwerth Cymdeithasol hwn yw rhan gyntaf ein taith. Anela'r polisi arddangos sut wnaiff CHThGC a HGC yn defnyddio **cynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru ©** i weithredu **Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012** a **Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Anela weld sut wnaiff CHThGC a HGC gyflwyno gwerth cymdeithasol drwy eu gweithgarwch comisiynu a chaffael a gosod blaenoriaeth CHThGC a HGC o ran gwerth cymdeithasol. Mae'r polisi yn gofyn i CHThGC, HGC a'n cyflenwyr gymryd cyfrifoldeb am beth a gomisiynir a chaffaelir a'n cynorthwyo'n foesegol a chyfreithiol wrth gyflwyno ein blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r Polisi wedi bod yn seiliedig ar gynorthwyo blaenoriaethau Sefydliadol presennol. Gwnawn wahodd cynigion arloesol gan gyflenwyr hen a newydd sy'n manylu sut ellir cyflwyno gwasanaeth gan gynorthwyo cyflwyno'r blaenoriaethu hyn ar yr un pryd.

DEDDF GWASANAETHAU CYHOEDDUS (GWERTH CYMDEITHASOL) 2012

Ar y cyd â'r ddeddf, mae CHThGC a HGC yn ymroddedig i Werth Cymdeithasol. Gwnânt geisio sicrhau fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried ym mhob cam o'n proses gomisiynu a chaffael ac fel rhan o gost bywyd cytundeb.

Cwmpas y Ddeddf - Mae'r Ddeddf yn berthnasol i gytundebau gwasanaethau a chytundebau sy'n cyfuno gwasanaeth gyda phrynu neu logi nwyddau uwchben y rhiniog UE. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ar **Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012.**

BETH A OLYGWN GAN WERTH CYMDEITHASOL

ae Gwerth Cymdeithasol yn croesawu tair colofn Caffael Cynaliadwy: Cymdeithas, Economi a'r Amgylchedd.



Mae'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn gofyn i holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ystyried sut all beth a gynigir gael ei gaffael wella lles **economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** y maes perthnasol. Hola hefyd sut all y broses gaffael weithredu gyda golwg ar ddiogelu'r gwelliant hwnnw.

DIFFINIO GWERTH CYMDEITHASOL

Nid yw'r Ddeddf yn cynnig diffiniad ar gyfer Gwerth Cymdeithasol ond mae llawer o ddiffiniadau am Gynaliadwyedd a Chaffael Cynaliadwy. Rhestrir y rhai mwyaf adnabyddus isod. Gwnawn eu mabwysiadau at ddiben y polisi hwn.

Cynaliadwyedd - "Datblygiad sy'n bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain"

Diffiniad = Bruntdland

Caffael Cynaliadwy - "Proses lle mae sefydliadau yn bodloni eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail bywyd llawn o ran creu manteision nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, wrth leihau niwed i'r amgylchedd"

Diffiniad = Tasglu Caffael Cynaliadwy, Caffael y Dyfodol – Mehefin 2006

DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, gweithio'n well â phobl, cymunedau a chyda'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae datblygu Gwerth Cymdeithasol ledled Gogledd Cymru yn cael ei gynorthwyo ymhellach gan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** sy'n croesawu Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol. Mae'n gosod saith nod i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r nodau wedi'u hanelu at greu Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, gwydn, iachach a chyfrifol yn fyd-eang. Anelir hefyd at gael cymunedau cydlynol a diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus.



Y SAITH NOD YW GWNEUD CYMRU'N FWY:

1. Llewyrchus
2. Gwydn
3. Iachach
4. Cyfartal
5. Cymunedau Cydlynol
6. Cyfrifol yn fyd-eang
7. Diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus

Newid diwylliannol - Mae'r Ddeddf yn galw am newid mewn diwylliant wrth weithio gyda'r unigolyn i'w cynorthwyo cyflawni eu canlyniadau lles. Yn gyntaf, drwy ofyn "beth sy'n bwysig i chi?" ac yn ail drwy wneud y mwyaf o'u rhwydweithiau cymorth eu hunain a chael mynediad at adnoddau cymunedol a gwirfoddol, sy'n hanfodol i gyflawni amcanion y Ddeddf. Bydd cynllun gofal a chymorth yn dilyn dim ond os na ellir cyflawni canlyniadau lles. Y nod yw symud y cydbwysedd o ofal a chymorth tymor hir, lle bynnag sy'n bosibl. Adwaenir y fath hon o agwedd fel Cyfalaf Cymdeithasol sydd â'r pedair prif thema sef Dinasyddiaeth, Cymdogrwydd, Rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad Sifil i gyd wedi'u hanelu at wella lles unigolyn.

Gwnaiff CHThGC a HGC fabwysiadu **cynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru ©** er mwyn sicrhau Gwelliannau yn lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu drwy ein prosesau comisiynu, caffael a grant. Mae hyn yn rhan o'n hymroddiad i **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a thanlinellu ymhellach ein hymroddiad i Werth Cymdeithasol.

Caethwasiaeth Fodern yn y Gadwyn Gyflenwi - Er ei ddiddymiad tybiedig, mae'r arfer o gaethwasiaeth yn parhau'n gyffredin ym mhob gwlad yn y byd. Mae'r arfer o gaethwasiaeth modern yn parhau'n dreiddiol. O lafur gorfodol mewn amaethyddiaeth i'r slafdai sy'n cynhyrchu nwyddau cost isel ar gyfer cadwyni cyflenwi cost isel. O fasnachu unigolion yn anghyfreithlon fel 'eiddo' i gaethwasiaeth yn y pyllau yn echdynnu'r deunyddiau crai a ddefnyddir mewn nwyddau traul electronig. Yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, mae oddeutu 21 miliwn o ddynion, merched a phlant o amgylch y byd mewn ffurf o gaethwasiaeth. Amcangyfrifir eu bod yn creu elw o $150 biliwn (oddeutu £28.5 biliwn) y flwyddyn.

Mae caethwasiaeth fodern yn nes at adref nag yr ydych yn ei feddwl. Yn sgil y drasiedi lle boddodd 21 o weithwyr mudol o Tsieina yn casglu cocos oddi ar arfordir Swydd Gaerhirfryn yn 2004, mae ffurfiau caethwasiaeth newydd yn y DU wedi dod i'r amlwg gydag amlder sy'n peri pryder. Mae'r rhain yn cynnwys camfanteisio corfforol difrifol ar weithwyr domestig gan ddiplomyddion cefnog. Maent yn cynnwys cardota a lladrata gorfodol gan blant sydd wedi'u masnachu i'r DU. Maent hefyd yn cynnwys carcharu dynion ifanc gan gangiau i reoli 'ffermydd' canabis. Mae wedi dod yn gynyddol amlwg fod cwmpas caethwasiaeth fodern yn llawer ehangach nag y cymerwyd yn ganiataol yn flaenorol.

Deddf Gaethwasiaeth Fodern 2015 - Y Ddeddf yw'r cyntaf o'i bath yn Ewrop, ac un o'r cyntaf yn y byd, i fynd i'r afael yn benodol â chaethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn yr 21ain ganrif. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gwella cymorth a gwarchodaeth yn sylweddol ar gyfer dioddefwyr. Mae'n rhoi'r arfau angenrheidiol i swyddogion gorfodi'r gyfraith dargedu gyrwyr caethweision heddiw. Mae'n sicrhau fod tramgwyddwyr yn cael eu cosbi'n llys. Mae'n cynnwys **darpariaeth sy'n arwain y byd i annog busnes weithred er mwyn sicrhau fod eu cadwyni cyflenwi o'r dechrau i'r diwedd yn rhydd o gaethwasiaeth.**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys cymal sy'n gofyn i gwmnïau sy'n gweithredu yn y DU adrodd yn flynyddol ar y camau maent wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fod eu cadwyni cyflenwi rhyngwladol yn rhydd o gaethwasiaeth.

Ein Blaenoriaeth - Mae CHThGC a HGC wedi gosod blaenoriaeth er mwyn sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi o'r dechrau i'r diwedd yn rhydd o achosion o gaethwasiaeth fodern, masnachu anfoesegol a throseddau hawliau dynol.

I danlinellu ein hymrwymiad i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a chyflogaeth foesegol o fewn y cadwynau cyflenwi yr ydym wedi arwyddo Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru. Mae cyfeirlyfr canllawiau ar gael yma: www.gov.wales/code-of-practice **www.gov.wales/code-of-practice**

Y TRYDYDD SECTOR / SECTOR GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL

Mae'r Trydydd Sector (a elwir weithiau'r sector Gwirfoddol neu Gymunedol) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r ystod o sefydliadau sydd naill ai'n sector cyhoeddus neu sector preifat. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (sy'n elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill fel cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cymdeithasau cydfuddiannol a chydweithfeydd.

Gyrrir y sefydliadau hyn gan ddymuniad i gyflawni amcanion cymdeithasol (e.e. gwella lles cyhoeddus, lles yr amgylchedd neu economaidd) yn hytrach na'r dymuniad am elw. Fel y cyfryw, gelwir y sefydliadau hyn yn aml yn 'sefydliadau nid er elw'. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud elw i fod yn gynaliadwy yn ariannol. Oherwydd eu dymuniad i gyflawni amcanion cymdeithasol maent yn aml yn y lle gorau i gyflwyno cytundebau sector cyhoeddus.



Mae oddeutu 500,000 o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn y DU. Mae 188,000 yn elusennau cofrestredig gyda chymysged o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Cydnabyddwn y fantais o weithio gyda'r sefydliadau hyn ac ystyriwn hwy'n bartner allweddol wrth gyflwyno gwasanaethau.

Cytundeb Partneriaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Trydydd Sector

Mae CHThGC a HGC yn edrych ar wella ymgysylltiad gyda sefydliadau trydydd sector lleol. Felly os ydych yn sefydliad gwirfoddol neu gymunedol ac y buasech yn hoffi Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ymweld â'ch sefydliad a'i weld ar waith yn cyflwyno gwasanaeth, cwblhewch y **Ffurflen Gais**. Dalier sylw y byddai unrhyw ymweliadau yn cael eu cynnal yn unol â pharamedrau deddfwriaeth caffael.

Mae gweld gwasanaethau yn cael eu cyflwyno ar y rheng flaen yn rhoi mewnwelediad i'r materion a wynebir gan gymunedau. Bydd yn cynorthwyo'r Comisiynydd ddeall anghenion cymunedol a chynorthwyo wrth ddatblygu blaenoriaethau plismona yn y dyfodol. Ceir mwy o wybodaeth ar **http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Working-in-Partnership/Third-Sector.aspx**

PACT – Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

Fe'i lansiwyd yn 1998 i gynorthwyo mentrau cymunedol, yn enwedig y rhai hynny a oedd ynghlwm â'r Heddlu. Anelant wella ansawdd bywyd drwy leihau trosedd ac ofn trosedd yn holl gymunedau Gogledd Cymru. Ers 1998 mae PACT wedi cynorthwyo amrywiaeth eang o brosiectau, gan fuddsoddi dros £1,000,000 mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn anelu i gynyddu dinasyddiaeth dda a chyfranogiad cymunedol er mwyn creu cymunedau diogelach.

- Ewch ar wefan PACT ar **www.pactnorthwales.co.uk**
- Gweler Atodiadau 2 am fwy am PACT

COSTAU A MANTEISION

Cynaliadwyedd a Rheoli Costau - Ni ddylai bod cost premiwm i brynu'n gynaliadwy os caffaelir cynnyrch ar sail oes gyfan. Mae prynu cynaliadwyedd nid yn unig yn cyflwyno Gwerth am Arian ar sail oes gyfan, mae hefyd â manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymdeithas. Mae'n lleihau niwed i'r amgylchedd, defnydd adnoddau a chreu llai o wastraff. Gwnaiff CHThGC a HGC ystyried opsiynau cynaliadwy ar holl gaffaeliadau.

Costau Oes Gyfan (WLC) - WLC yw cyfanswm cost bod yn berchen ased dros ei oes gyfan. Adwaenir y broses hon hefyd fel Cyfanswm Cost Perchnogaeth neu Crud i'r Bedd. Mae WLC yn cynnwys holl gostau fel dylunio, gwasanaeth, cynnal a chadw, cyflwyno, dibrisiant a gwaredu. Mae WLC yn ystyried costau penodol a anwybyddir fel arfer, fel effaith amgylcheddol a chostau cymdeithasol.

- Gweler **Canllaw Prynu** – Adran 4.2

Caffael Tymor Byr - gyda phwysau cynyddol ar gyllidebau, bydd y pris isaf yn aml yn ddeniadol yn y tymor byr, ond efallai na fydd yn cyflwyno'r cynnyrch gorau ar y diwedd yn ystod ei oes.

Caffael Tymor Hir - gall WLC roi bywyd a pherfformiad gwasanaeth cynyddol am WLC is, neu arddangos y bydd buddsoddiad cychwynnol uwch yn darparu manteision tymor hir mwy gyda chostau cynnal a chadw a gweithredu sylweddol.

Mantais Gymdeithasol - canlyniad y broses cyflawni gwerth cymdeithasol ac mae'n golygu cymaint o bethau gwahanol i gymaint o wahanol bobl. Mae Gwerth Cymdeithasol ynglŷn â lles Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol. Fel y cyfryw gall gynnwys unrhyw beth o greu swyddi i leihau gwastraff. **Gwerth Cymdeithasol Cymru ©**

Natur Gwerth Cymdeithasol - Mae'n anodd cael set o ganlyniadau Gwerth Cymdeithasol sy'n berthnasol yn gyson i holl gontractau. Mae hyn fwyaf oherwydd gwerth, natur ac amrywiaeth yr ystod eang o nwyddau a gwasanaethau a nwyddau a gomisiynir ac a gafaelir. Cydnabyddir nad oes cynllun 'addas i bawb'. Mae felly'n arfer gorau i gymhwyso'r polisi hwn mewn modd cymesur, wedi'i deilwra i adlewyrchu'r gwasanaeth neu'r nwyddau i gael eu caffael. Rôl comisiynwyr gwasanaeth ac arweinwyr caffael yw ystyried, ar sail bob cytundeb, y canlyniadau gorau a all gael eu cyflwyno drwy'r broses gaffael a'r ffordd fwyaf priodol i'w cyflawni.



Mae angen gwella lles rhanbarth gael ei ystyried cyn dechrau'r broses gan ei fod yn gyfle dylanwadau'r dewis o gyflenwr a all roi manteision economaidd ac i'r gymuned yn ehangach.

BLAENORIAETHU

Mae CHThGC a HGC wedi nodi amcanion a chanlyniadau. Wrth wneud hynny maent wedi ystyried dogfennau, deddfwriaeth a chanllaw sefydliadol allweddol.

- **Amcanion Cynllun Heddlu a Throsedd**
- **Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**

Mae CHThGC a HGC yn anelu

1. Creu cymunedau cynaliadwy a diogelach, creu economi gryfach, lleihau defnydd ynni a chreu Gogledd Cymru bywiog a chyfrifol.
2. Diogelu mwy o Gyfalaf Cymdeithasol (yr ewyllys da o gysylltiadau cymdeithasol), fel **dinasyddiaeth, cymdogrwydd, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad sifil.**

THEMÂU A CHANLYNIADAU CYMDEITHASOL CHTHGC A HGC



Trosir y blaenoriaethau a dynnir sylw atynt uchod i Themâu a Chanlyniadau yn y diagram isod. Ceir mesurau pellach am gyflwyno'r blaenoriaethau a arddangosir o fewn ein Fframwaith Canlyniadau **cynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru ©**.

CYMDEITHASOL	ECONOMAIDD	AMGYLCHEDDOL	DIWYLLIANNOL
CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A DIOGELACH • Darparu pecynnau iechyd, lles a chymorth • Gweithio'n well â chymunedau, pobl a gyda'i gilydd (Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol) • Creu gallu a chymorth i'r Trydydd Sector (gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol)	**CYNORTHWYO CREU ECONOMI GRYFACH YN G. CYMRU** • Cynorthwyo busnes lleol a gwario arian yn lleol • Creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant o fewn y gymuned leol • Lleihau anghydraddoldeb, codi safonau byw a gweithio tuag at dalu cyflog byw	**DEFNYDD CYNALIADWY A LLAI O DDEFNYDD** • Gwella'r amgylchedd • Lleihau defnydd ynni ac allyriadau CO2 • Cynyddu defnydd a chynhyrchu cynaliadwy a gwyrddach	**CREU G. CYMRU BYWIOG A CHYFRIFOL** • Cynorthwyo creu iaith Gymraeg ffyniannus • Cynorthwyo creu diwylliant a threftadaeth fywiog yng Nghymru • Hyrwyddo masnachu foesegol a lleihau achosion o Gaethwasiaeth Fodern

Y DATGANIAD A CHWESTIWN CYMDEITHASOL

Mae'r canlynol yn enghraifft o Ddatganiad a Chwestiwn Agoriadol a ellir cael eu defnyddio mewn Dyfynbris neu Dendr. Mae'n tynnu sylw at ein blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol. Dylai'r Cwestiwn ddod gyda'r datganiad gan ei fod yn gofyn i'r cyflenwr dystiolaethu sut allent fodloni ein blaenoriaethau a chyflwyno rhai eu hunain.

Wrth ddefnyddio'r agwedd hon, mae'n bwysig cael Polisi Gwerth Cymdeithasol wedi'i gytuno, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi sy'n tynnu sylw at flaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol y Sefydliad.

DATGANIAD

Mae CHThGC a HGC yn ymroddedig i **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Maent yn sicrhau yr ystyrir materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhob cam o'n proses gomisiynu a chaffael, ac fel rhan o gost oes gyfan cytundeb.

Anela CHThGC a HGC

1. Creu cymunedau cynaliadwy a diogelach, creu economi gryfach, lleihau defnydd ynni a chreu Gogledd Cymru bywiog a chyfrifol.
2. Diogelu mwy o Gyfalaf Cymdeithasol (yr ewyllys da o gysylltiadau cymdeithasol), fel **dinasyddiaeth, cymdogrwydd, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad sifil.**

Ceir mwy o wybodaeth yn ein Polisi Gwerth Cymdeithasol ar **Polisi Gwerth Cymdeithasol**

CWESTIYNAU

Gwerth Cymdeithasol

1. Gofynnir i gynigwyr fynegi sut wnânt gynorthwyo CHThGC a HGC wrth gyflawni eu blaenoriaethau ac unrhyw fanteision cymdeithasol gallwch gyfrannu at y cytundeb hwn. Yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwerth Cymdeithasol) 2012, bydd cynigwyr yn disgrifio sut fyddent yn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach ar ran HGC a / neu GHThGC yn ystod cyflawni'r cytundeb.

Iaith Gymraeg

2. Bydd cynigwyr yn disgrifio pa effaith, os o gwbl, gall y Cynllun Iaith Gymraeg ei gael ar gyflawni'r cytundeb. Byddant yn disgrifio sut wnânt reoli a monitro eu cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun (gan gynnwys sicrhau fod holl gyfathrebiadau perthnasol, yn ysgrifenedig a llafar, ar gael yn Gymraeg a Saesneg).

Cyfreithiol - Mae'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn berthnasol i gytundebau gwasanaeth cyhoeddus a chytundebau gydag ond elfen o nwyddau neu waith dros drothwy'r UE. Dylai comisiynwyr ystyried gwerth cymdeithasol yn y cyfnod cyn caffael. Mae hyn yn caniatáu iddynt ei osod i gynllun y gwasanaeth.

Rhaid i sefydliadau contractio ystyried: (a) sut all beth a gaiff ei gaffael wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y maes a (b) sut, wrth gynnal y broses gaffael, gall weithredu gyda golwg ar sicrhau'r gwelliant hwnnw.

Yn unol â hynny, dylai pwnc cytundeb gael ei gwmpasu er mwyn **ystyried blaenoriaethau'r awdurdod cytundebu sy'n berthnasol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn achos lles diwylliannol CHThGC a HGC fel sydd yng nghynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru ©.**

Er mwyn sicrhau ein bod yn gyson yn ein hagwedd, gwnawn ddefnyddio matrics Gwerth Cymdeithasol Cymru o ganlyniadau a mesurau a ellir cael eu defnyddio ar sail fodiwlaidd. Cânt eu cymhwyso mewn modd cymesur a pherthnasol yn ddibynnol ar werth a phwnc y cytundeb.

Canllaw ar Gyhoeddi Cytundebau Gwerth Is

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllaw ar sut dylai awdurdodau cyhoeddus roi cytundebau ar werth ariannol isel yn deg. Mae'r cytundebau hyn yn cyfrif am y mwyafrif o gontractau cyhoeddus yn yr UE. Mae'r canllaw hefyd yn cynghori ar ffyrdd hysbysebu'r gofynion. Mae'n cyfeirio at ddefnyddio gwefannau porth fel

- Darganfyddwr Cytundebau: **http://www.contractsfinder.businesslink.gov.uk/**
- Gwerthwch i Gymru: **Sell to Wales**
- Blue Light Procurement Database - **BLPD**

Ymroddiad Blaengar

Gwnawn edrych ar hysbysebu cyfleoedd mor gynnar, mor eang a mor chynhwysol â phosibl er mwyn sicrhau fod holl ddarparwyr (mawr a bach) â chyfle teg, cyfartal a thryloyw i gynnig. Mae hyn er mwyn i'r farchnad gael amser i ymateb mewn modd sy'n deillio uchafswm Gwerth Cymdeithasol o'r cyfle.

Dylai PIN (rhybudd gwybodaeth ymlaen llaw) gael ei roi lle mae'n briodol drwy https://bluelight.eu-supply.com/. Dylai cyflenwyr lleol fod yn ymwybodol o'r cyfle drwy hysbysebu ar wefan CHThGC a HGC ynghyd â sianelau lleol a chenedlaethol eraill fel sy'n briodol.

Hysbysebu Tendrau

- Gwerthwch i Gymru - **Gwerthwch i Gymru**
- Blue Light - **https://bluelight.eu-supply.com/**

Rhybuddion Tendro

- Cofrestrwch ar **Bluelight** i dderbyn rhybuddion tendro.

Gwerthoedd Cymdeithasol – "beth i'w wneud" ar bob Trothwyon Gwario

Nid oes un cynllun 'addas i bawb' ar gyfer cymhwyso a chyflwyno Gwerth Cymdeithasol. Mae hyn oherwydd gwerth, natur ac amrywiaeth yr ystod eang o nwyddau a gwasanaethau mae CHThGC a HGC yn eu comisiynu a'u caffael wrth fodloni'r ystod amrywiol o anghenion cwsmeriaid.

Canllaw Caffael - Gweler **Canllaw Prynu** – Adran 6 am ganllaw caffael llawn a gofynion. Dylid dilyn Canllaw Prynu bob amser. Mae'r wybodaeth isod yn ganllaw ar sut i ymgeisio a chyflwyno Gwerth Cymdeithasol ar bob trothwy.

Canllaw Gwerth Cymdeithasol

£0 i £20,000 - Mae Gwerth Cymdeithasol ar sail wirfoddol gan y cyflenwyr ac nid ddylid ei ddefnyddio fel meini prawf dyfarnu. Gall cyflenwyr gofrestru i'r Siarter Gwerth Cymdeithasol **Polisi Gwerth Cymdeithasol**

Prynu - Rhaid i gael isafswm o un dyfynbris yn ysgrifenedig ac arddangos fod y pryniant yn werth am arian ac yn unol ag arfer gwerth gorau. Gweler **Canllaw Prynu** tudalen 7

£20,001 i £49,999 - Dylai Gwerth Cymdeithasol gael ei ystyried gan y swyddog comisiynu a chaffael drwy ddefnyddio un o'r opsiynau isod o fewn y broses dyfynbris neu dendro

- Datganiad a Chwestiwn Gwerth Cymdeithasol – gweler tudalen 9
- Fframwaith Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol

Prynu - Rhaid cael lleiafswm o dri dyfynbris yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r system e-dendro ac wedi'i dychwelyd at yr Adran Gaffael i'w agor. Gweler **Canllaw Prynu** tudalen 7

Trothwy £50,000 i £ Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd - Dylid ystyried Gwerth Cymdeithasol gan y swyddog comisiynu a chaffael gan ddefnyddio un o'r opsiynau isod o fewn y broses ddyfynbris neu dendro

- Datganiad a Chwestiwn Gwerth Cymdeithasol – gweler tudalen 9
- Fframwaith Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol

Prynu - Gwahoddir tendrau gan ddefnyddio System E-Dendro cymeradwy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gweler **Canllaw Prynu** tudalen 9

Uwchben Trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd - Dylid ystyried Gwerth Cymdeithasol gan y swyddog comisiynu a chaffael drwy ddefnyddio un o'r opsiynau isod o fewn y broses dyfynbris neu dendro

- Datganiad a Chwestiwn Gwerth Cymdeithasol – gweler tudalen 9
- Fframwaith Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol

Prynu - Dilynwch weithdrefnau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd llawn. Gweler **Canllaw Prynu** tudalen 9

Cytundebau Fframwaith

Os ydych yn defnyddio cytundeb fframwaith cysylltwch â'r adran gaffael am ganllaw.

CASGLIAD

Cyn dechrau proses gomisiynu a chaffael, rhaid i CHThGC a HGC ystyried sut gellir gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth. Gellir gwneud hyn drwy gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau fel rhan o'r **Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ac mewn cydweithrediad â **chynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru©.**

Nod y Deddfau yw sicrhau fod, fel rhan o'r prosesau comisiynu a chaffael, ystyria cyrff y Llywodraeth effaith ehangaf cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'n caniatáu cyflenwr gael ei ddewis nid yn unig pwys sy'n rhoi'r gwasanaeth mwyaf manteisiol yn economaidd, ond un sy'n mynd tu hwnt i'r telerau cytundeb sylfaenol ac yn sicrhau manteision ehangach i'r gymuned.

Yr ydym yn cydnabod nad yw'r polisi cyntaf o'i fath na'r olaf chwaith. Gellir yn sicr gael ei adolygu a'i fireinio wrth i ni barhau ar hyd ein Taith Gwerth Cymdeithasol.

Gobeithiwn fod gwreiddio Gwerth Cymdeithasol i'n prosesau comisiynu a chaffael yn dod â budd sylweddol i Ogledd Cymru a'i drigolion drwy gyflwyno enillion cymdeithasol, lle bynnag sy'n bosibl, ar bob punt a wariwn.

DOLENNI DEFNYDDIOL

- **Deddf Gwerth Cymdeithasol**
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/3/enacted
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted
- **Deddf Caethwasiaeth Fodern**
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted
- **Porth Blue Light**
  https://bluelight.eu-supply.com/
- **Darganfyddwyr Cytundebau**
  http://www.contractsfinder.businesslink.gov.uk/
- **Cyflog Byw**
  http://www.livingwage.org.uk/
- **Isafswm Cyflog Cenedlaethol**
  https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

DOLENNI DOGFENNAU CHThGC A HGC

- **Cynllun Heddlu a Throsedd**
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Information/Publication-Scheme/What-are-priorities-are-and-how-we-are-doing/Police-and-Crime-Plan/Police-and-Crime-Plan-2017-Final.pdf
- **Rheolau Sefydlog Cytundebau**
  NWPCC and NWP contract standing orders (CSO's)
- **Trydydd Sector**
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Working-in-Partnership/Third-Sector.aspx
- **Cydraddoldeb**
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Working-in-Partnership/North-Wales-Public-Sector-Equality-Network.aspx
- **PACT**
  www.pactnorthwales.co.uk
- **Adroddiad a Chyfrifon PACT 2015/16**
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/PACT-Annual-Report-2016.pdf
- **Eich Cymuned Eich Dewis (Cronfa Ansawdd Bywyd)**
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/PACT-Annual-Report-2016.pdf

ATODIADAU 1

Proses Comisiynu a Chaffael Gwerth Cymdeithasol

Er mwyn galluogi cyflwyniad cyson o Werth(oedd) Cymdeithasol o weithgarwch tendro, bydd y canllaw canlynol yn galluogi i wreiddio gwerth cymdeithasol i brosesau comisiynu a chaffael

Nodi'r angen busnes	• Herio a lleihau'r galw • A yw'r pryniant yn angenrheidiol? • Beth yw'r gofynion perfformiad a chanlyniadau cymdeithasol dymunol? • Sefydlu angen nid eisiau busnes
Diffinio polisi	• Ymchwilio'r farchnad (beth sydd ar gael, beth sy'n bosibl, chwiliwch am arloesedd) – ymarfer ymgysylltu'r farchnad / diwrnod cynigwyr • Nodi effeithiau / cyfleoedd cynaliadwy. Blaenoriaethu'r rhain a ffocysu lle gellir gwneud y mwyaf o wahaniaeth • Defnyddio manylebau er mwyn cynnwys Gwerth(oedd) Cymdeithasol lle mae'n bosibl • Defnyddio manylebau sy'n seiliedig ar Allbwn er mwyn hyrwyddo datrysiadau arloesol
Nodi Cyflenwyr a Thendr	• Sicrhau fod dogfennau cymhwyso a thendr yn dal gofynion cymdeithasol (gan ddechrau gyda'r PIN) • Cadw'r broses yn syml er mwyn sicrhau fod mentrau bach a chanolig/cymdeithasol ayyb yn gallu cyfranogi • Hysbysebu'n eang (gan gynnwys yn lleol) er mwyn sicrhau fod y farchnad yn ymwybodol • Cyfathrebu meini prawf gwerthuso (gan gynnwys gofynion cymdeithasol) fel gall cynigwyr ddeall ei bwysigrwydd
Gwerthuso a Dyfarnu	• Defnyddio Costau Oes Gyfan (lle'n bosibl) i werthuso cynigion • Gwerthuso a sgorio yn unol â meini prawf cyhoeddedig (gan gynnwys gwerth cymdeithasol) • Ôl-drafod y cynigwyr aflwyddiannus (er mwyn gyrru mwy o werth cymdeithasol gan gynigion yn y dyfodol) • Trafod Gwerth(oedd) Cymdeithasol nid ond cyfranddaliadau • Cwblhau'r cytundeb – cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol / telerau ac amodau gan gynnwys mesurau, cymhellion a chosbau Gwerth Cymdeithasol
Gweithredu	• Cwblhau proses adolygu perfformiad (gan gynnwys Gwerthoedd Cymdeithasol) a monitro.
Rheoli Perfformiad a Chysylltiad	• Monitro perfformiad Gwerth Cymdeithasol fel rhan o'r broses a chytuno ar weithred gywirol yn ôl y gofyn • Chwilio am ffyrdd er mwyn gwella perfformiad • Defnyddio arbenigedd / gwybodaeth cyflenwyr
Adolygu a Dysgu	• Rhannu dysgu drwy gydol y broses mewn ymgais i wella gwneud prosesau a phenderfyniadau

PACT - Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

Creu cymunedau a chynorthwyo pobl ifanc - Mae Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) yn chwilio am, hyrwyddo ac annog prosiectau sydd o dan arweiniad cymunedau sy'n meithrin amgylchedd diogelach a gwella ansawdd bywyd pobl Gogledd Cymru. Canolbwyntia'r elusen ar fentrau sydd yn:

- Hyrwyddo rhaglenni atal trosedd
- Cynyddu ymwybyddiaeth am broblemau cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill a'r ymatebion gorau
- Lleihau trosedd a gwarchod pobl ac eiddo
- Hyrwyddo diogelwch ffyrdd
- Gwella cysylltiadau rhwng yr hen a'r ifanc
- Rhoi cymorth i Dimoedd Plismona Cymdogaethau Diogelach
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o asiantaethau a sefydliadau
- Gwella gwerthfawrogiad o'r heddlu a'u cyfranogiad mewn materion lleol

Ers 1998 mae PACT wedi buddsoddi dros £1,000,000 gan gynorthwyo prosiectau a chymunedau ledled Gogledd Cymru.

Yn canolbwyntio. Yn alluog. Yn rhagweithiol - O dan arweiniad Bwrdd Ymddiriedolwyr o gefndiroedd sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, maent i gyd yn dod ag ystod amrywiol o brofiad i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n rhoi set o sgiliau i'r Bwrdd sy'n unigryw yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn wedi profi'n hanfodol yn natblygiad PACT o fod yn ariannwr grant adweithiol i ddatblygwr prosiectau rhagweithiol sy'n cynorthwyo cymunedau yn lleol a rhanbarthol.

Mae nodi rhaglenni effeithlon ac effeithiol, ariannu a rheoli yn hanfodol mewn amgylchfyd sy'n newid. Mae gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau yn sicrhau fod PACT yn cyflwyno canlyniadau positif i holl roddwyr, cynorthwywyr, yr heddlu a phobl Gogledd Cymru:

- Ymgynghori a chynnwys cymunedau mewn datblygu prosiectau sydd â budd diffiniedig
- Datblygu a rheoli prosiectau sylweddol sydd â mantais uniongyrchol ar gymunedau
- Cynyddu effaith, gwerth ac annibyniaeth PACT
- Prosiectau sydd wedi'u canolbwyntio sy'n cynorthwyo blaenoriaethau plismona a diogelwch cymunedol
- Ymgysylltu busnes wrth ddatrys problemau cymunedol
- Adeiladu ar sylfaeni cadarn presennol – staff, ymddiriedolwyr, enw da a phrosesau
- Agwedd fentrus at fusnes – syniad a seiliedig ar gyfleoedd
- Creu partneriaeth ehangach (sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat)
- Bod yn rhagweithiol nid adweithiol
- Twf organaidd wedi'i reoli gan risgiau, fesul prosiect, yn seiliedig ar argaeledd cyllid prosiect penodol
- Lleiafswm biwrocratiaeth gyda chostau craidd yn cael eu gofalu gan adfachu ffi reoli

Codi arian effeithlon ac effeithiol - Mae PACT wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda rhoddwyr a chwmnïau ledled Gogledd Cymru, gan ganiatáu iddo ariannu a chynorthwyo nifer cynyddol o fentrau dan arweiniad cymunedau.

Yn ychwanegol, a gyda chymorth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae PACT yn rheoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu yn 2006. Dyrennir arian a godwyd drwy'r Gronfa hon i grwpiau cymunedol yn chwe sir Gogledd Cymru.

Rhaglenni sylweddol - Ers 1998 mae PACT wedi datblygu ei galluoedd i'w chaniatáu i gychwyn, marchnata a chyflwyno prosiectau mwy, yn bennaf ym maes ieuenctid. Mae mentrau yn y gorffennol wedi cynnwys "Meddyliwch Cyn Yfed", "Cwpan y Byd-bach Wrecsam", ac ein prif raglen addysg sef "Cyfiawnder mewn Diwrnod".

Mae llwyddiant y prosiectau wedi annog PACT ddatblygu a rhannu portffolio o brosiectau sylweddol. Mae proffil ac effaith y prosiectau hyn, fel y rhai hynny a restrir isod, yn cynorthwyo PACT i ddenu partneriaid newydd gyda'r adnoddau ariannol a rheoli i roi PACT fel y brif elusen diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru.

"Cyfiawnder Mewn Diwrnod" – Mewn partneriaeth â Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, "Cyfiawnder mewn Diwrnod" yw prif brosiect PACT. Yn wreiddiol fel arbrawf yn 2010 yn dilyn ymgynghoriad gydag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, ysgolion, myfyrwyr a'r heddlu, mae nawr yn ei seithfed flwyddyn. Yn ystod yr amser hwnnw yr ydym wedi ymgysylltu â thros 5,000 o bobl ifanc.

Mae drama fywiog, realistig a gwybodus yn dilyn cymeriad o'r enw Alex o'r cyfnod cyn iddo gyflawni trosedd, ei brawf, carchariad a'r canlyniadau i'w deulu, ffrindiau a'r dioddefwr. Mae'r materion, risgiau a chost ymosodiad ieuenctid ar ieuenctid o ganlyniad i fwlio seiber a dros negeseuon testun maleisus yn cael eu hagor i drafodaeth.

Mae'r ddrama yn adlewyrchu rhai o broblemau'r plant eu hunain ac yn rhoi'r cyfle i gynulleidfa ddeall canlyniadau posibl eu gweithrediadau. Mae hyn yn cynnwys ymddangos yn y Llys, dedfryd a charchariad.

Mae'r fenter arloesol yn galluogi'r heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ac ysgolion weithio â disgyblion Blwyddyn 8/9 mewn amgylchfyd anffurfiol proffesiynol sy'n:

- tynnu sylw at ganlyniadau gweithgarwch troseddol/gwrthgymdeithasol
- rhoi ffyrdd o drin cwestiynau nad oeddent fel arall wedi gallu eu gofyn
- edrych ar effaith ymddygiad o'r fath ar droseddwyr, dioddefwyr a'r gymuned ehangach – a'r costau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad/gweithrediadau o'r fath
- annog dinasyddiaeth dda

Mae canlyniadau o'r gweithdai yn dangos fod 96% o bobl ifanc a fynychodd wedi dweud eu bod yn llai tebygol o fod ynghlwm â throsedd yn y dyfodol.

Trechu Trosedd yw prif gronfa PACT ar fentrau ieuenctid. Hon yw elusen swyddogol Uwch Siryfion Clwyd a Gwynedd. Mae Trechu Trosedd yn cynorthwyo prosiectau gyda grantiau hyd at £500 i bobl ifanc ddatblygu a chyflwyno prosiectau atal trosedd/diogelwch cymunedol. Codir arian gan ymdrechion ymroddedig y Siryddiaeth yng Ngogledd Cymru. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae wedi cynorthwyo dros 400 o brosiectau ieuenctid gyda grantiau dros £200,000.

Mae'r prosiectau a gynorthwyir yn gofalu am ystod amrywiol o bynciau. O ddiogelwch ffyrdd, addysg ar gyffuriau/alcohol, diogelwch rheilffyrdd, ffyrdd o fyw iach, a rhaglenni gwrth-fwlio fel:

- Ynys Môn, "Prevention is Better than Cure " - digartrefedd a throsedd
- Clwb Ieuenctid Llandudno, "Dwed Na" - yfed o dan oed, defnyddio cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ysgolion Cynradd Brynteg a Nannerch - gwrth-fwlio – Cyfeillion yr Iard
- Marsialiaid Gorllewin Y Rhyl - ymgysylltiad ieuenctid, cymunedol, amgylcheddol
- Caernarfon, Gisda - cymorth i'r digartref
- Rhyl, Clwyd Alyn - amgylchedd
- Criw Diogelwch Llandrillo - diogelwch plant
- Castell Alun, Hope - gwirfoddoli ieuenctid
- YPDAT Y Fflint "You Won't Always Get Lucky" - addysg cyffuriau ac alcohol
- Cyngor Cymuned Brychdyn - addysg, ymgysylltiad, amgylchedd.

77427 Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.
Freepik.com